

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL  
(Cyfarfod Arbennig)**

**17 Mai 2017**

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Mr A Archer, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Cynghorydd R  
Kilmister, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens a'r  
Cynghorydd M Williams.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd L Jenkins a Mr AE Sangster ar ddechrau cyflwyniad y swyddog ar yr adroddiad cyntaf. Cyrhaeddodd Ms C Gwyther yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad (y cyfeirir ato yng nghofnod 3 isod).]

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 10.50am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd S Hudson, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd D Rees a'r Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Mr AE Sangster a'r Cynghorydd M Williams bod ganddynt fuddiant personol yn y polisïau oedd yn y Ddogfen Strategaeth a Ffefrir (Cofnod 4 isod), ond cymerodd y ddau ran lawn yn y drafodaeth ar y polisïau hynny. Datganodd y Cynghorydd ML Evans fuddiant personol a rhagfarnus yn rhai o'r polisïau, a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried y mater.

**3. Creu Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi, Cymeradwyo Gwariant Cyfalaf Ychwanegol ar y Tai Crwn yng Nghastell Henllys a Chymeradwyo Trosglwyddiadau yn y Gyllideb dros £20,000**

Eglurodd y Rheolwr Cyllid bod ei adroddiad mewn tair rhan. Yn gyntaf roedd yn ceisio cymeradwyaeth i greu'r Cronfeydd Wrth Gefn canlynol wedi'u Clustnodi: Stitch in Time - £100,000; Prosiect Llwybrau - £250,000; Llwybr Arfordir Cymru / Blwyddyn Marchnata'r Môr - £180,000; Newid mesuryddion maes parcio i'r di-arian - £20,000; a Gweithredu Tirweddau'r Dyfodol Cymru (i'w ddyrannu at ddefnydd 9 o Dirweddau Dynodedig) - £150,000.

Eglurodd bod yr Awdurdod fis Mawrth 2017 wedi llwyddo yn eu cais am y prosiectau hyn, ac felly yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Argymhellwyd bod Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi yn cael eu creu i ariannu'r prosiectau hyn yn y blynyddoedd ariannol sydd i ddod.



Roedd ail elfen yr adroddiad yn ymwneud â gwariant cyfalaf ychwanegol ar y Tai Crwn yng Nghastell Henllys. Roedd Rhaglen Gyfalaf 2017/18 eisoes yn cynnwys swm o £30,000 ar gyfer y prosiect hwn. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad manwl gan Archaeolegwyr ac ymgynghorwyr, roedd amcangyfrif mwy manwl bellach yn dod i swm o £72,000. Roedd arian ar gael i dalu am y gwariant ychwanegol hwn o gronfa wrth gefn oedd eisoes wedi'i sefydlu a'i chlustnodi.

Cwestiynodd un Aelod pam fod yr Awdurdod yn parhau i redeg ei ganolfannau ac a ddylai ganolbwyntio ei ymdrechion ar wella mynediad i'r Parc Cenedlaethol ei hun, ac i ddiogelu ei adeiladau. Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod y Canolfannau yn cael rhyw 200,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, ac felly yn effeithiol iawn o ran gwireddu ail ddiben yr Awdurdod o hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Cytunodd yr Aelodau eraill bod holi'r cwestiynau hyn yn berthnasol, ond roeddent yn cytuno â'r Prif Weithredwr bod yr adborth gan yr ymwelwyr â'r Canolfannau hyn yn adborth da iawn, a bod i'r Canolfannau hyn swyddogaeth bwysig yn ogystal â bod yn gymorth i warchod y dreftadaeth ddiwylliannol fel rhan o ddiben cyntaf yr Awdurdod.

Yn olaf, dywedwyd bod cymeradwyo trosglwyddiadau dros £20,000 angen cymeradwyaeth benodol gan y Prif Swyddog Ariannol a'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol neu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn unol â Pharagraff 42 o Safonau Ariannol yr Awdurdod. Yn unol â hynny, roedd rhestr ynghlwm wrth yr adroddiad o'r cyfryw drosglwyddiadau a wnaed yn 2016/17 oedd angen cymeradwyaeth.

**PENDERFYNWYD** bod yr Awdurdod yn cymeradwyo creu'r Cronfeydd Wrth Gefn uchod wedi'u Clustnodi, y gwariant cyfalaf ychwanegol ar y tai crwn yng Nghastell Henllys, a'r rhestr o drosglwyddiadau dros £20,000.

[Roedd Ms C Gwyther wedi ymatal rhag pleidleisio gan ei bod wedi ymuno â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth.]

[Ar ôl datgan buddiant, ymddiheurodd y Cynghorydd ML Evans a gadawodd y cyfarfod cyn dechrau unrhyw drafodaeth ar y mater canlynol.]

#### **4. Y Strategaeth a Ffefrir (Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyn-adneuo), Arfarniad Drafft o Gynaliadwyedd, Asesiad Drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol**

Atgoffwyd yr Aelodau fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, bod yr Aelodau wedi ystyried copïau drafft o'r dogfennau a nodir uchod mewn cyfres o Weithdai dros y deuddeg mis diwethaf. Gofynnwyd am gymeradwyo'r dogfennau hyn yn awr at ddibenion ymgynghori, a rhagwelwyd y byddai hynny'n digwydd yn ystod mis Mehefin a mis



Gorffennaf 2017. Roedd y dogfennau ynghlwm wrth yr adroddiad a hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu cynnwys y Strategaeth a Ffefrir, Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol ac i ofyn am sylwadau'r Aelodau arnynt. Hefyd roedd croeso i'r Aelodau gyflwyno eu sylwadau fel rhan o'r broses ymgynghori ei hun.

Gofynnodd yr Aelodau rai cwestiynau yn enwedig o ran y Safleoedd Ymgeisiol oedd wedi eu rhoi gerbron ac yr ymatebodd y swyddogion iddynt. Ychwanegodd y swyddogion bod y polisiâu wedi'u trafod yn fanwl mewn nifer o gyfarfodydd, a'u gobaith oedd y byddai'r Cymunedau yn cyfranogi yn ystod yr ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r dogfennau canlynol ar gyfer ymgynghori:

- a) Strategaeth Drafft a Ffefrir a Diagram Allweddol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
- b) Arfarniad drafft o Gynaliadwyedd ar gyfer y Strategaeth drafft a Ffefrir;
- c) Asesiad drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth drafft a Ffefrir, a'r
- d) Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol.

## 5. Gair o ddiolch

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf nifer o'r Aelodau yn y tymor presennol, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau dros y 5 mlynedd diwethaf. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei ddiolch yntau am y berthynas waith ardderchog rhwng yr Aelodau a'r swyddogion, a dymunodd ddiolch yn arbennig i'r Cadeirydd am ei holl waith, gan ddymuno'n dda i bawb yn y dyfodol.

